



Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

16 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu '*Adroddiad Blynyddol Cysylltiadau Rhyngwladol 2022-23*' yn dilyn casgliad eu hymchwiliad i'n gweithgarwch cysylltiadau rhyngwladol.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Yn gywir,

MARK DRAKEFORD

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1

Rydym yn ailadrodd ein cais ac yn ailadrodd ein datganiadau a wnaed yn ystod y gyllideb ddrafft flaenorol, bod gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu i'r Pwyllgor i gynorthwyo ei graffu. Dylai hyn gynnwys manylion am y canlyniadau a'r allbynnau a fydd yn cael eu cyflawni mewn dyraniadau cyllideb ddrafft i gefnogi gwaith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu.

Ymateb: Derbyn

Ysgrifennodd y Pwyllgor ar 25 Hydref yn gofyn am wybodaeth fanwl am gyllideb ddrafft 2024-25 fel y mae'n ymwneud â Chysylltiadau Rhyngwladol. Bydd ymateb ar wahân yn cael ei roi i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r gyllideb. Mae cyhoeddi ein hadroddiad rhwydwaith tramor blynyddol yn un o'r dulliau a ddefnyddiwn i adrodd ar ein canlyniadau.

Goblygiadau Ariannol
Amherthnasol.

Argymhelliad 2

Rydym yn galw ar y Prif Weinidog i ddarparu tystiolaeth lafar yn bersonol ar gyfer craffu drafft ar y gyllideb.

Ymateb: Gweler isod

Ar 2 Tachwedd, rhoddodd fy swyddfa wybod i'r Pwyllgor na fyddwn yn rhoi tystiolaeth lafar yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 ac y byddwn yn darparu papur ysgrifenedig yn lle hynny.

Hyderaf fod fy ymateb i'ch cais am wybodaeth am y gyllideb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn foddhaol. Fel o'r blaen, rwy'n barod i gynorthwyo'r Pwyllgor gydag unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall y gallai fod ei hangen ar ôl i chi ystyried y dystiolaeth.

Goblygiadau Ariannol
Amherthnasol.

Argymhelliad 3

Rydym yn gofyn am ddiweddariad cynnydd yn erbyn y camau gweithredu tymor byr a chanolig a restrir yng nghynlluniau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r adolygiad o'r Strategaeth Ryngwladol yn 2024, ac unrhyw benderfyniadau i adnewyddu ein blaenoriaethau, bydd swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd ar y cynlluniau gweithredu.

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol Rhwydwaith Tramor eto yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn nodi'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnal i gyflawni yn erbyn y camau gweithredu yn y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynlluniau Gweithredu.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth benodol yn yr UE.

Argymhelliad 5

Os na dderbynnir argymhelliad 4, dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy eglur wrth nodi ei blaenoriaethau fel y maent yn ymwneud â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE a Chymru-UE.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gwneud 'dimensiwn Ewropeidd' y Strategaeth Ryngwladol yn fwy eglur, fel y disgrifir gan y Prif Weinidog.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yr UE fel un o'i pherthnasau â blaenoriaeth.

Ymateb: Gweler isod

Mae'r berthynas economaidd rhwng Cymru a'r UE yn hanfodol i ni a dylai gael ei gwella gan y berthynas rhwng y DU a'r UE. Fel y soniais yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Medi, nid wyf yn cytuno bod angen strategaeth UE ar wahân ar hyn o bryd. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, sy'n cynnwys ein perthynas ag Ewrop. Mae cadw ein swyddfa ym Mrwsel, a chreu cynrychiolydd ymroddedig ar gyfer yr UE, yn cadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau bod Cymru yn rhoi gwerth uchel ar ein cysylltiadau ag Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd.

Fel yr eglurais yn fy sesiwn gyda'r Pwyllgor ar 18 Medi, dylai unrhyw waith i ddatblygu'r berthynas â'r UE ganolbwyntio ar greu perthynas economaidd sy'n gweithio i'r ddwy ochr. A bod yn realistig, ni fydd modd i'r broses hirdymor lawnach o feithrin perthynas economaidd ddyfnach rhwng y DU a'r UE, yn seiliedig ar gydweithrediad gwleidyddol gwell, ddigwydd tan ar ôl etholiadau Senedd Ewrop a phenodi Comisiwn Ewropeaidd newydd yng nghanol 2024, a than ar ôl etholiad cyffredinol nesaf y DU. Yn y cyfamser, bydd diweddariad meddal o'r Strategaeth Ryngwladol cyn diwedd tymor y Senedd hon, a byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i wneud y dimensiwn Ewropeaidd yn fwy eglur.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull o adolygu y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad (TCA) yn 2025-26.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd cwmpas a natur yr adolygiad o'r TCA yn cael ei benderfynu gan ddatblygiadau gwleidyddol ehangach, gan gynnwys etholiadau Senedd Ewrop, penodi Comisiwn Ewropeaidd newydd, ac etholiad cyffredinol nesaf y DU. Felly, mae'n gynamserol nodi dull gweithredu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau TCA yn gweithio mor effeithiol â phosibl ac ar barhau i wella ymgysylltiad Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Nodaf fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cyhoeddi ei adroddiad yn ddiweddar o'i Ymchwiliad i lywodraethu rhwng y DU a'r UE <https://senedd.wales/media/3jvbyvys/cr-ld16176-e.pdf>.

Byddwn yn amlinellu'r manylion maes o law. Bydd y Senedd yn dymuno ystyried yr ymateb hwnnw wrth asesu dull esblygol Llywodraeth Cymru o berthynas y DU a'r UE a gweithrediad ac esblygiad y TCA.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro pryd y bydd costau sy'n gysylltiedig â theithio tramor yn cael eu cyhoeddi nesaf.

Argymhelliad 10

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi costau yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog i gyhoeddi'r costau diweddaraf ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y costau diweddaraf ar gyfer teithio gweinidogol dramor gan gostio mwy na £500 y daith, ynghyd â chyfanswm cost ymweliadau pob Gweinidog dramor, ym mis Medi 2023: [Cyhoeddiad gwybodaeth am y Cod Gweinidogol: 6ed Senedd | LLYW.CYMRU](#). Rhaid i'r adroddiadau am onestrwydd gael eu cyhoeddi cyn gynted â bod hynny'n ymarferol, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 11

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cywirdeb y rhestrau o ymweliadau ac ymwelwyr tramor.

Ymateb: Derbyn

Bydd swyddogion yn parhau i hysbysu'r Pwyllgor o bob cyfarfod Gweinidogol gydag ymwelwyr diplomyddol i Gymru, yn ogystal ag ymweliadau tramor y Gweinidogion, drwy ddarparu crynodeb ôl-weithredol a ddarperir bob mis. Ar gyfer ymweliadau Gweinidogol dramor, darperir gwybodaeth ychwanegol fel arfer gan Weinidogion mewn Datganiad Ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod o'u dychwelyd.

Goblygiadau Ariannol
Amherthnasol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys dadansoddiad manwl o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad fel mater o drefn lle nodir materion y DU a'r UE yn eu Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, fel y darperir yn ystod proses graffu y Bil hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae'r enghraifft o effaith bosibl y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ar y TCA yn un da iawn ar gyfer achosion lle mae angen i ddeddfwriaeth arfaethedig y DU ystyried y Cytundeb. Rwy'n hapus i gytuno y dylai Cronfeydd Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Filiau sy'n effeithio ar y TCA nodi ein hasesiad o effaith o'r fath.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Daw arian ar gyfer unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.